OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1951(Cy.215 ) (C.70)

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Mesur Addysg (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 2) 2011

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Hwn yw'r ail orchymyn cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Fesur Addysg (Cymru) 2009 ("Mesur 2009"). Mae'r Gorchymyn yn dwyn i rym adrannau 21 a 22 o Fesur 2009 ar 1 Medi 2011.

Mae adran 21 o Fesur 2009 yn dileu'r cyfeiriadau at y cyfnod allweddol cyntaf o Ran 7 o Ddeddf Addysg 2002 ac mae hefyd yn rhoi cyfeiriadau at y "foundation phase" yn Rhan 7 o Ddeddf Addysg 2002 yn lle cyfeiriadau at y "foundation stage".

Mae adran 22 o Fesur 2009 yn gwneud mân ddiwygiadau i adrannau 33F(1)(a) a 33N(1) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

## NODYN YNGHYLCH GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r ddarpariaeth ganlynol o Fesur Addysg (Cymru) 2009 wedi ei dwyn i rym gan orchymyn cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y ddarpariaeth* | *Y dyddiad cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| Adran 20 | 10 Mehefin 2011 | 2011/1468 (Cy.137) |

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1951(Cy.215 ) (C.70)

## ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Mesur Addysg (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 2) 2011

*Gwnaed* *29 Gorffennaf 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 26 o Fesur Addysg (Cymru) 2009(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Addysg (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 2) 2011.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Mesur 2009" ("*the 2009 Measure*") yw Mesur Addysg (Cymru) 2009.

**Cychwyn**

**2.** Mae adrannau 21 (Y cyfnod sylfaen) a 22 (Hawliau mewn perthynas â'r cwricwlwm lleol ar gyfer myfyrwyr 16 i 18 oed) o Fesur 2009 i ddod i rym ar 1 Medi 2011.

*Leighton Andrews*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

29 Gorffennaf 2011

(**1**) 2009 mccc 5.